**GORCHYMYN CYNGOR SIR PENFRO**
**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2011**
**(GORCHYMYN AMRYWIO RHIF 17 – 2026)**

Mae Cyngor Sir Penfro, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 32 a 35 ac Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), ac fel y'i diwygiwyd, a darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall yn y Ddeddf, ac ar ôl ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu, yn unol ag Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:

Daw'r gorchymyn hwn i rym ar [dyddiad], a gellir ei enwi fel Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2011 (Gorchymyn Amrywio Rhif 17).

Bydd yr Atodlen ("yr Atodlen") i Orchymyn Cyngor Sir Penfro (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2011, a ddaeth i rym ar ddiwrnod cyntaf mis Chwefror 2011, yn cael ei hamrywio er mwyn cynnwys y canlynol:

1. Cyflwyno maes parcio newydd yng ngholofn 2 yr Atodlen ar gyfer man parcio ceir rhif 11C.
2. Cyflwyno maes parcio newydd yng ngholofn 2 yr Atodlen ar gyfer man parcio ceir rhif 11D.
3. Dirymu Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2011 i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitem rhif 26A, maes parcio Hole in the Wall, Hwlffordd, a fydd yn cael yr effaith o gau a thynnu'r maes parcio oddi ar y rhestr o feysydd parcio ceir.
4. Diwygio'r cyfnod hwyaf y gall cerbyd aros yng ngholofn 6 yr Atodlen ar gyfer man parcio rhif 24.
5. Cyflwyno tariff 4 awr yng ngholofn 8 ar gyfer man parcio ceir rhif 24.
6. Diwygio'r cyfnod codi tâl i 24 awr ym man parcio rhif 27.
7. Dirymu'r cilfannau 'siopa cyflym' 30 munud yng ngholofn 7 yr Atodlen ar gyfer man parcio ceir rhif 27.
8. Diwygio'r tariff 1 awr cyfredol i £0.00 yng ngholofn 8 ar gyfer man parcio rhif 27.
9. Diwygio'r tariff 24 awr cyfredol i £4.50 yng ngholofn 8 ar gyfer man parcio rhif 27.
10. Cyflwyno tariff 10 awr yng ngholofn 8 ar gyfer man parcio rhif 27.
11. Cyflwyno tariff 'beic modur' yng ngholofn 8 yr Atodlen ar gyfer cerbydau dosbarthiadau 1 a 4 yng ngholofn 4 ar gyfer man parcio ceir rhif 27.
12. Diwygio'r taliadau parcio yng ngholofn 8 yr Atodlen, ar gyfer man parcio rhif 27, i alluogi'r holl dariffau i fod ar gael ar bob llawr.
13. Cyflwyno dosbarth 9 fel dosbarth newydd o gerbyd yng ngholofn 4 yr Atodlen ar gyfer man parcio rhif 27.

## ATODLEN 1

| Eitem | Enw'r | Safle lle gall | Dosbarth y | Oriau a dyddiau gweithredu'r | Y cyfnod hwyaf y gall | | Taliadau arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | man parcio | cerbyd aros | cerbyd | man parcio | cerbyd aros | Taliadau cyfredol | a / neu |
| | | | | a'r cyfnod codi tâl | | | newidiadau |
| [1] | [2] | [3] | [4] | [5] | [6] | [7] | [8] |
| 11C | Gelliswick, Gelliswick | Yn gyfan gwbl o fewn cilfan barcio | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 10, 11 | Pob awr ar bob diwrnod o'r flwyddyn | Dim terfyn | Dim tâl | Dim tâl |
| 11D | Glan môr Gelliswick, Gelliswick | Yn gyfan gwbl o fewn cilfan barcio | 1, 2, 3, 4, 5, 8 | Pob awr ar bob diwrnod o'r flwyddyn | Dim terfyn | Dim tâl | Dim tâl |
| 24 | Perrots Road, Hwlffordd | Yn gyfan gwbl o fewn cilfan barcio | 1, 2, 3, 4, 5 | Pob awr ar bob diwrnod o'r flwyddyn | 4 awr | 1 awr – £1.00<br>2 awr – £2.00<br><br>Ar gadw – £200 | 1 awr – £1.00<br>2 awr – £2.00<br>4 awr – £3.00<br><br>Ar gadw – £200 |
| 26A | Hole in the Wall, Hwlffordd | Yn gyfan gwbl o fewn cilfan barcio | 1, 2, 3, 4, 5 | Pob awr ar bob diwrnod o'r flwyddyn | 24 awr a deiliaid hawlenni | Dim tâl | Dirymu'r maes parcio |
| 27 | Maes parcio aml-lawr Glan-yr-afon, Hwlffordd | Yn gyfan gwbl o fewn cilfan barcio | 1, 2, 3, 4, 5, **9** | Pob awr ar bob diwrnod o'r flwyddyn | 24 awr a deiliaid hawlenni | Pob llawr – cyfnod codi tâl: 09:00–19:00<br><br>Llawr daear | Pob llawr – cyfnod codi tâl: 24 awr<br><br>1 awr – £0.00 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 awr – £1.00<br>‘Siopa cyflym’ (30 munud) – £0.00<br><br>Lloriau 1, 2 a 3<br>2 awr – £2.00<br>4 awr – £3.00<br>24 awr – £4.00 | 2 awr – £2.00<br>4 awr – £3.00<br>10 awr – £3.50<br>24 awr – £4.50<br><br>Beic modur 24 awr – £1.00 |

**Dyma ddosbarthiadau’r cerbydau y cyfeirir atynt uchod:**

| **Dosbarthiadau cerbydau** | |
|---|---|
| 1 Beiciau modur unigol | 6 Ôl-gerbydau |
| 2 Cerbydau wedi’u cofrestru i bobl anabl | 7 Carafanau |
| 3 Ceir modur | 8 Cerbydau modur sydd â phwysau cerbyd gros o fwy na 3.5 tunnell ac sy’n hwy na 5.5 metr |
| 4 Cyfuniadau beiciau modur | 9 Coetsys |
| 5 Cerbydau modur sydd â phwysau cerbyd gros o lai na 3.5 tunnell, neu sy’n llai na 5.5 metr o hyd | 10 Cychod a/neu ôl-gerbydau cychod sy’n llai na 3.5 tunnell neu 5.5 metr o hyd<br>11 Cychod a/neu ôl-gerbydau cychod sydd dros 3.5 tunnell neu 5.5 metr o hyd |

**RHODDIR** o dan sêl gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y dyddiad hwn, ..........................

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR PENFRO**

ym mhresenoldeb:

Llofnodwr awdurdodedig

**This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.**